Newyddion y Cyfnod Sylfaen

Y CYHOEDDIAD AR GYFER NEWYDDION A GWYBODAETH YN ABERTAWE

City & County of Swansea
Dinas a Sir Abertawe

TYMOR YR HAF 2007

Cawsom adborth cadarnhaol yn dilyn cylchlythyr y tymor diwethaf: roedd eich sylwadau'n ddefnyddiol iawn.

Os hoffech gyflwyno sylwadau pellach y tymor hwn, mae'r manylion cyswllt ar ddiwedd y llythyr. Er enghraifft, efallai hoffech roi gwybod i ni am brosiect bwrsariaeth grŵp diddorol, sefydlu grŵp rhwydwaith neu drefnu cefnogaeth o fewn eich grŵp clwstwr.

Siân Williams

CYFLEOEDD HYFFORDDI'R YSGOL GOEDWIG..

Dosberthir manylion am OCN lefel 1 a 2 (Mehefin a Gorffennaf 2007) i ysgolion. I gael manylion pellach am wasanaethau hyfforddi ychwanegol ffoniwch :

01792 367118

GARDD FOTANEG GENEDLAETHOL CYMRU

I gael manylion llawn am Ymweliadau Ysgolion Cynradd, cyrsiau, digwyddiadau a chyfleoedd hyfforddi ffoniwch :

01558 667150

Neu ewch i'r wefan:

www.gardenofwales.org.uk

Dylai'r adnodd hwn fod yn eich ysgol...



Cynhyrchwyd y cyhoeddiad hwn gan SEEF (Fforwm Addysg Amgylcheddol Abertawe) i hysbysu athrawon am adnoddau lleol sy'n gallu cefnogi addysg awyr agored. Mae'n tynnu sylw at y côd ymarfer da ac yn cynnwys manylion am amrywiaeth o sefydliadau ac unigolion sy'n cynnig cefnogaeth ac arbenigedd. Mae'r cyfeirlyfr yn darparu gwybodaeth ymarferol am ddetholiad o safleoedd lleol.

NEWYDDION Y CYFNOD SYLFAEN

Ers mis Medi 2004 mae'r Cyfnod Sylfaen wedi cael ei arbrofi mewn 42 lleoliad, a chyhoeddwyd yr adroddiad gwerthuso terfynol (MEEIFP) ym mis Rhagfyr 2006. Ym mis Medi 2007 bydd y cynllun peilot yn cael ei estyn i ardaloedd Dechrau'n Deg i greu 42 Lleoliad Cychwyn Cynnar y Cyfnod Sylfaen.

Dyma'r amserlen ar gyfer cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn statudol :

2008 Cyflwyno statudol yn dechrau gyda phob plentyn 3-5 oed.

2009 Cyflwyno statudol ar gyfer pob plentyn 3-6 oed.

2010 Statudol ar gyfer pob plentyn 3-7 oed.

2011 Cyflwyno wedi'i gwblhau.

O fis Medi 2007 bydd pecyn hyfforddi pum niwrnod yn cael ei gyflwyno i bob ysgol. Mae'r pum modiwl yn cynnwys : y saith maes dysgu, rôl chwarae, creu amgylchedd dysgu, cynllunio ac asesu, trosglwyddo, addysgeg a lleoli staff yn briodol a datblygu llythrennedd trwy ryngweithio ag oedolion.

Gwefannau o ddiddordeb…..

www.mindstretchers.co.uk (Catalog o adnoddau ond hefyd rhai erthyglau diddorol am ddysgu yn yr awyr agored)

www.early-education.org.uk

www.lel.org.uk (Dysgu trwy dirweddau)

www.shropshireonline.gov.uk/forestschools.nsf (Rhai gweithgareddau ar gyfer dysgu yn yr awyr agored gan gynnwys themâu anifeiliaid a phlanhigion, gweithgareddau creadigol ac archwiliadol.

www.teachers.tv (Y ffordd fwyaf effeithiol o weld rhaglenni yw eu lawrlwytho'n gyntaf)

Mae gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru:

www.cymru.gov.uk wedi sicrhau bod dogfennaeth ddrafft a dogfennau ymgynghori sy'n berthnasol i'r Cyfnod Sylfaen ar gael i'w lawrlwytho. Mae'r *Cynllun Gweithredu* ar gael trwy'r wefan hefyd sy'n amlinellu'r graddfeydd amser ar gyfer gweithredu wrth ddatblygu'r Cyfnod Sylfaen ac yn cynnwys adroddiad gwerthuso terfynol yr astudiaeth beilot.

Adnoddau a chyhoeddiadau…..

Ar gael o **Featherstone Education Publishers**.

www.featherstone.uk.com

Bwriad y llyfrau hyn yw arwain staff wrth gefnogi plant yn eu dysgu eu hunain.





Teitlau eraill sydd ar gael..

The Little Book of Outdoor Play
The Little Book of Role Play
The Little Book of Phonics
The Little Book of Light & Shadow
The Little Book of Prop Boxes for Role Play
The Little Book of Science through Art
The Little Book of Treasure Baskets
The Little Book of Maths Activities
The Little Book of Nursery Rhymes
The Little Book of Cooking From Stories
The Little Book of Messy Play
The Little Book of Writing
The Little Book of Sand & Water
The Little Book of Props for Writing
The Little Book of Music
The Little Book of Maths Songs & Games
The Little Book of Storytelling
The Little Book of Listening
The Little Book of Bricks & Boxes
The Little Book of Outside in All Weathers

EARLY EDUCATION

Y GYMDEITHAS ADDYSG PLENTYNDOD CYNNAR BRYDEINIG.

Y tymor hwn, cyflwynodd Margaret Hanney MBE ddarlith ddiddorol iawn a llawn gwybodaeth ar Ymwneud ac Ymyrraeth gan Staff mewn Chwarae Plant.

Tynnodd Margaret sylw at bwysigrwydd oedolion yn ymwneud â chwarae plant wrth, er enghraifft, gefnogi datblygiad iaith, estyn sgiliau meddwl, herio stereoteipiau, dangos gwerth chwarae a sefydlu perthynas dda gyda'r plant.

Pwysleisiodd Margaret bwysigrwydd arsylwi ar gyfer ymyrraeth gadarnhaol.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar gyfer y tymor hwn yn Ysgol Fabanod Pentrepoeth ar 19 Mehefin pan fydd Marion Dowling yn rhoi darlith ar *Sgiliau Meddwl mewn Plant Ifanc.*

Mae Marion yn arbenigwr adnabyddus yn y blynyddoedd cynnar. Hi yw llywydd Addysg Gynnar ac mae'n gweithio fel hyfforddwr ac ymgynghorydd yn y D.U. a thramor. Mae ei gwaith cyhoeddedig yn cynnwys Young Children's Personal, Social and Emotional Development, a Starting School at Four.

Argymhellir neilltuo lle cyn gynted â phosib (trwy ADDYSG GYNNAR). Y pris yw £30 i aelodau a £40 i'r rheiny nad ydynt yn aelodau. Dosbarthwyd y manylion i ysgolion.

Y RHWYDWAITH MANNAU AWYR AGORED

Yn dilyn llwyddiant seminarau y llynedd, trefnwyd pedair arall ar gyfer y tymor hwn. Cynhelir pob seminar yn yr ystafell Amlgyfrwng yn yr Adran Astudiaethau Plentyndod, Prifysgol Abertawe. Mae mynediad am ddim. Am fanylion cysylltwch â Gemma Lewis:

G.Lewis@Swansea.ac.uk

Y ddwy seminar sydd ar ôl i'w cynnal ym mis Mehefin yw :

06/06/07

Meithrinfa Farley

(Meithrinfa awyr agored yn Salisbury)

" Yn darparu dysgu yn yr awyr agored i blant 2-5 oed "

04/07/07

Yr Athro Tim Walker

Prifysgol Abertawe

" Peidiwch â dod yn rhy agos at fy nghoeden octopws - Archwilio dysgu mewn amgylcheddau gwyllt naturiol "

City & County of Swansea
Dinas a Sir Abertawe

Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg





Yn dilyn yr hyfforddiant dau ddiwrnod llwyddiannus yng Nghanolfan Dylan Thomas yn Abertawe, mae llawer o ysgolion wedi cyflwyno cais am fwrsariaethau grŵp i gyflwyno *Write Dance* yn eu lleoliadau eu hunain.

Byddem yn croesawu gwahoddiad i un o'ch sesiynau neu adborth am gynnydd.

Manylion cyswllt...

YGG Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd
Penlan
Abertawe SA5 7BU

Irene de Lloyd- Ymgynghorydd Cynradd
Swyddfa 01792562660
Uniongyrchol 01792 562696
E-bost : irene.delloyd@swansea.gov.uk

Siân Williams—Athrawes Ymgynghorol
Swyddfa : 01792 562660
Uniongyrchol:01792 562695
E-bost: sian.williams@swansea.gov.uk

Sylwer :

Ni allwn argymell cynnwys yr holl gyhoeddiadau a gwefannau a restrwyd. Maent er gwybodaeth yn unig ac ysgolion unigol sydd i'w dewis fel y bo'n briodol.

Y gair olaf.....

IAITH A CHWARAE.....

Dylai unrhyw un sy'n dymuno sefydlu a rhedeg Iaith a Chwarae neu Rif a Chwarae yn eu lleoliad gysylltu â Tracy yng Nghanolfan Blant Abertawe.

Tracie Jennett
Language and Play
Co-ordinator
City and County Swansea

Tel :- 01792 572063
Mob :- 07919 626616
tracie.jennett@swansea-edunet.gov.uk

YN DATBLYGU EICH AMGYLCHEDD DYSGU AWYR AGORED ?

WEDI GWNEUD CYNLLUNIAU ?

Yn dilyn cyfarfodyddôr Tîm Llosgi Bwriadol, mae Nick Dodd wedi mynegi diddordeb mewn gweithio gydag ysgolion i roi cyngor mewn perthynasâ chynllunio'r ardal awyr agored gyda diogelwch rhag tân mewn golwg.

TIM LLEIHAU LLOSGI BWRIADOL
ARSON REDUCTION TEAM
Gemma Thomas
Delfryn Thomas
Nick Dodd
Mid & West Wales Fire & Rescue Service,
Sway Road, Morriston,
SWANSEA SA6 6JA
Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Heol Sway, Treforys,
ABERTAWE SA6 6JA
☎ 0870 6060 699
✉ arson.reduction@mawwfire.gov.uk

Ffôn
0870 6060 699

Byddem yn croesawu unrhyw sylwadau neu gyfraniadau ar gyfer rhifynnau o'r cylchlythyr hwn yn y dyfodol.